Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru Canllawiau ar gyfer Hawl i Weld a Chodi Tal

Mae cofrestri'r safleoedd a'r henebion sy'n cael eu cynnull a'u cynnal gan y pedwar Ymddiriedolaethau Archaeolegol yn ceisio darparu catalog llawn o safleoedd a darganfyddiadau archaeolegol a hanesyddol o bob cyfnod drwy Gymru gyfan. Ar hyn o bryd, mae tua 133,700 cofnod unigol yn y pedair cofrestr rhanbarthol, ac ychwanegir atynt ac ehangir hwynt yn gyson wrth i wybodaeth newydd ddod i law.

Mae'r Cofrestri yn ateb nifer o ddibenion gan gynnwys cynorthwyo i reoli'r tirwedd hanesyddol a'i gyflwyno'n gadarnhaol, rheoli cynllunio, a bod yn adnawdd i roi mewnbwn i hanes lleol, cadwraeth a phrosiectau twristaidd. Mae'r nodiadau hyn yn rhoi canllawiau ar gyfer gweld y wybodaeth sydd ar gael yn y cofrestri.

Cedwir y Cofrestri ar fasau data cyfrifiadurol sy'n rhoi lefel gyson o wybodaeth am bob safle, gan gynnwys cyfeiriad grid, cymuned, statws dynodedig, math o safle, cyfnod, a ffynonellau llyfryddiaeth. Mae'r Cofrestri hefyd yn cynnwys cofnodion cartograffig, dogfennol a ffotograffig ychwanegol. Mewn sawl enghraifft mae'r cofnodion yn grynodeb neu yn fynegiant o wybodaeth a gofnodir yn rhywle arall. Felly bydd angen yn aml i alw ar wasanaeth archaeolegwr profiadol i fesur arwyddocad llawn safleoedd arbennig a restrir yn y cofrestri.

Eiddo'r Ymddiriedolaethau Archaeolegol unigol yw hawlfraint strwythur data Cofnod yr Amgylchedd Hanesyddol (HER) a'r holl wybodaeth ynddo, oni nodir yn wahanol. Mae Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC) yn talu cyfran o gostau cynnal a datblygu Cofnodion yr Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol, ond mae angen incwm ychwanegol i dalu am gostau ymholiadau allanol. Edrychwch ar Ffioedd Adfer Costau CPAT.

CANLLAWIAU AR GYFER HAWL I WELD A CHODI TAL

1. Fel arfer ceir gweld gwybodaeth a gedwir yn y Cofrestri rhanbarthol ar unrhyw adeg resymol.

   Gofynnir i Ddefnyddwyr yn gyntaf lewni ffurflen gais yn amlinellu'r wybodaeth maent ei hangen a'r rheswm dros eu hymholiad. Gellir cael ffurflenni drwy ffonio neu ysgrifennu at yr Ymddiriedolaeth Archaeolegol perthnasol. Os na ellir ateb yr ymholiad ar unwaith, dylai Defnyddwyr ddisgwyl cael gwybod pryd ac ym mha fffurf y gellir darparu'r wybodaeth. Efallai y bydd angen gwneud ymholiadau gwahanol i bob Cofrestr unigol os yw'r ymholiad yn ymwneud a mwy nag un rhanbarth.

2. Gellir gwrthod hawl i weld gwybodaeth sy'n cael ei chadw yn y Cofrestri rhanbarthol os ystyrir y gall rhyddhau'r wybodaeth hon beryglu'r adnawdd archaeolegol.

Gofynnir i Ddefnyddwyr ddatgan at ba ddibenion y gofynnir am y wybodaeth, i addo y bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio at y diben datganedig yn unig, ac na chaiff ei phasio i drydydd parti heb gydsyniad ysgrifenedig y Gorfestr ranbarthol. Gall camddefynddio'r wybodaeth a ddarparwyd olygu erlyniad neu wrthod hawl pellach i weld unrhyw Gofrestr ranbarthol.

Dylai defnyddwyr sicrhau eu bod yn ceisio cyngor archaeolegol arbenigol ynglyn ag effeithiau unrhyw ddatblygiad arfaethedig ar yr adnawdd archaeolegol. Fel arfer dim ond mewn ymateb i gais pendant am hynny y caiff cyngor o'r math hwn ei roi gan Gofrestr ranbarthol.

3. Gwneir ymdrechion rhesymol i sicrhau cywirdeb y wybodaeth geir yn y Cofrestri, ond cyfrifoldeb y Defnyddwyr fydd gwneud yn siwr fod y wybodaeth yn gywir.

   Cafodd cynnwys y Cofrestri eu casglu o amryw o ffynonellau gwahanol, ac efallai nad ydynt i gyd wedi cael eu dilysu.

4. Bydd gwybodaeth gyfrinachol neu freintiedig a gyflwynwyd gan y Defnyddiwr ac a roddir yn y Cofrestri rhanbarthol yn cael ei pharchu.
5. Bydd gwybodaeth gyfrinachol neu freintiedig a gynhwyswyd yn y Cofrestri rhanbarthol yn cael ei dal yn ol oni bai fod Defnyddwyr wedi cael caniatad priodol ymlaen llaw.
6. Yr Ymddiriedolaethau Archaeolegol unigol biau penderfynu p'un ai ydynt yn gadael i Ddefnyddwyr weld y cofresti rhanbarthol yn uniongyrchol eu hunain.

   Efallai y bydd amgylchiadau yn caniatáu i Ddefnyddwyr hel gwybodaeth eu hunain o'r Cofrestri, er y bydd hi'n fwy priodol fel arfer iddynt gael cymorth staff yr Ymddiriedolaeth.

7. Bydd disgwyl i Ddefnyddwyr y Cofrestri barchu holl gyfyngiadau hawlfraint a chyfreithiol eraill a all fod ar wybodaeth a gedwir yn y cofnodion.

   Gall cofnodion ychwanegol gynnwys deunydd y mae'r hawlfraint amdano ym meddiant cyrff eraill. Mae Data Protection Act 1984 hefyd yn rheoli gollwng rhai mathau o wybodaeth.

8. Gall cyfyngiadau gael eu rhoi ar faint y gwybodaeth ryddheir i unrhyw Ddefnyddiwr unigol.

   Gellir gosod cyfyngiadau os ystyrir fod perygl i hyn olygu defnydd direol o rannau sylweddol o'r gofrestr neu i fas data heb ei reoli gael ei sefydlu i gystadlu ag ef.

9. Bydd disgwyl i Ddefynyddwyr fel rheol gydnabod y defnydd wnaed o'r Cofrestri mewn unrhyw ddogfen neu adroddiad gaiff eu cyhoeddi.
10. Bydd disgwyl i Ddefnyddwyr gyflwyno unrhyw wybodaeth newydd neu fydd wedi newid er mwyn ei chynnwys yn y Cofrestri, o fewn amserlen resymol. Perchir yr awydd i fod y cyntaf i gyhoeddi gwybodaeth newydd pan fo cyfrannwr yn dymuno hynny.
11. Codir tal fel arfer i adfer y gost o ymateb i bob ymholiad.

Nid yw'r Cofrestri rhanbarthol yn ceisio gwneud elw, ond dylai Defnyddwyr ddisgwyl talu tal rhesymol i gyfarfod a chostau darparu gwybodaeth. Gan y gall holiadau fod yn amrywiol iawn, mae cyfradd sefydlog o daliadau yn anaddas. Os bydd hi'n debyg y bydd angen cryn dipyn o waith, dylai'r Defnyddiwr ofyn am amcangyfrif o'r gost ymlaen llaw.

Codir tal fel arfer ar sail lleiafswm angenrheidiol i adfer costau, er y gellir gostwng neu hepgor y tal yn gyfangwbl am ymholiadau anffurfiol neu ymchwil pur (lle rhoddir ystyriaeth hefyd i p'un ai a fydd y Defnyddiwr yn cyflwyno gwybodaeth newydd neu newidiadau i wybodaeth i'w chynnwys heb gyfyngiadau yn y Gofrestr). Codir tal fel arfer ar gyrff neu unigolion sy'n gwneud gwaith masnachol ar sail adfer y costau yn llawn, gan gynnwys costau cyflog staff a symudir o ddyletswyddau eraill.

Dylid cyfeirio cwynion at y Cadeirydd,
Pwyllgor Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru,
d/o Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys.
Gwelwch y cyswllt ar frig y dudalen

Cyfeiriadau Defnyddiol Arall

Cadw
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QQ
Ffôn: 01443 33 6000
www.cadw.wales.gov.uk

Comissiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC)
Adeilad y Goron
Plas Crug
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 1NJ
Ffôn: 01970 621200
www.rcahmw.org.uk

The Information Commissioner
The Information Commissioners' Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545745
www.informationcommissioner.gov.uk

Adolygwyd 2/8/04